# Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Chwarae'r DU

# Manyleb Person ar gyfer aelodau o Grŵp Ysgrifennu NOS (rol wirfoddol)

## Pwrpas

Partneriaeth o sefydliadau chwarae a gwaith chwarae cenedlaethol yw Consortiwm Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) Gwaith Chwarae y DU: Chwarae Cymru, Play England, PlayBoard Northern Ireland, Play Scotland a'r Playwork Foundation. Cafodd y consortiwm ei gymeradwyo gan Banel Safonau a Fframweithiau y DU i gynnal adolygiad wedi'i hunanariannu o'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Chwarae ar ran sector gwaith chwarae'r DU.

Grŵp o arbenigwyr ymroddedig o'r sector fydd y grŵp ysgrifennu NOS a fydd yn datblygu'r gwaith o ysgrifennu safonau galwedigaethol newydd ar gyfer gwaith chwarae yn ystod 2024/25. O ganlyniad i natur ddwys y gwaith a'r angen i fynychu a chanolbwyntio'n gyson rydym yn awyddus i recriwtio uchafswm o wyth aelod. Nid yw hon yn swydd gyflogedig, felly bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus ffitio cyfarfodydd o amgylch ymrwymiadau eraill. Bydd cyfarfodydd grŵp ysgrifennu yn cael eu cynnal ar-lein.

Caiff y grŵp ysgrifennu ei gefnogi gan amrywiol Grwpiau Cyfeirio Arbenigol. Pwrpas y grwpiau hyn fydd bod yn gyfaill beirniadol i'r Grŵp Ysgrifennu NOS a Chonsortiwm NOS Gwaith Chwarae y DU.

Rydym hefyd yn recriwtio aelodau ar gyfer y Grwpiau Cyfeirio Arbenigol sy'n meddu ar wybodaeth benodol am Addysg Uwch, Cymwysterau a Chyrff Dyfarnu, darparu Addysg Bellach, gwaith chwarae mynediad agored a gofal y tu allan i oriau ysgol. Mae manyleb person ar wahân ar gael ar gyfer y grwpiau hyn.

## Sut i wneud cais

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn rhan o'r grŵp ysgrifennu, anfonwch e-bost atom yn esbonio sut yr ydych yn bodloni'r gofynion o ran y priodoleddau, y sgiliau a'r wybodaeth a restrir yn y fanyleb person isod, ynghyd â CV.

E-bostiwch: **adolygiadnos@chwarae.cymru**



© Chwarae Cymru

## Y priodoleddau dymunol ar gyfer y grŵp ysgrifennu

Er mwyn bod yn aelod o’r grŵp ysgrifennu, rydym yn anelu at gael pobl a chanddynt ystod o sgiliau, arbenigedd, gwybodaeth a phrofiadau bywyd. Rydym yn awyddus i gael grŵp cytbwys sy’n meddu ar y priodoleddau canlynol:

- Profiad ac arbenigedd blaenorol mewn ysgrifennu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol
- Gwybodaeth fanwl am y cyd-destun cenedlaethol a’r blaenoriaethau ar gyfer safonau galwedigaethol yn Lloegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Gymru
- Datblygu cymwysterau gwaith chwarae
- Amrywiaeth mewn perthynas â nodweddion gwarchodedig
- Profiad presennol o ymarfer gwaith chwarae
- Gwaith chwarae mewn lleoliadau nad ydynt yn rhai penodedig
- Dealltwriaeth o gwmpas cymwysterau ar draws y gweithlu plant yn y DU.

Er bod profiad o ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol a/neu gymwysterau yn bwysig, rydym hefyd yn awyddus i feithrin gwybodaeth a gallu yn y sector ar gyfer adolygiadau NOS yn y dyfodol. Oherwydd hyn, rydym yn croesawu ceisiadau gan ddarpar aelodau o’r grŵp ysgrifennu nad ydynt wedi gweithio’n uniongyrchol yn y maes hwn o’r blaen.

## Manyleb Person:

Mae’n rhaid i aelodau o’r grŵp ysgrifennu hefyd allu dangos bod ganddynt brofiad, gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy’n rhoi sylw i bob un o’r canlynol:

- Gwybodaeth am y sector gwaith chwarae presennol
- Profiad ymarferol o weithio wyneb yn wyneb â phlant mewn cyd-destun chwarae neu waith chwarae
- Gwybodaeth a dealltwriaeth am y broses o ddatblygu safonau galwedigaethol cenedlaethol a’r cysylltiad rhyngddynt a chymwysterau eraill
- Sgiliau cyfathrebu rhagorol a’r gallu i fod yn ddiplomyddol
- Profiad o weithio fel rhan o dîm sydd â chynllun gwaith ac amserlen benodedig
- Ysgrifennu canlyniadau dysgu, meini prawf asesu neu safonau eraill sy’n cyd-fynd â briff, templed neu fformat penodol
- Gweithio o bell gan ddefnyddio meddalwedd cyfarfodydd ar-lein
- Amser a gallu i fynychu cyfarfodydd ar-lein yn rheolaidd am gyfnod o chwech i naw mis (o fis Gorffennaf 2024 ymlaen)
- Ymrwymiad i fynychu 80% o’r cyfarfodydd.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais yw 31 Gorffennaf 2024.**

PlayBoard Northern Ireland – Leading the Play Agenda | Play England – Freedom to play | Play Scotland | Chwarae Cymru – Play Wales | The Playwork Foundation